



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Canllaw Profiad Addysgu Proffesiynol

**BA3 PAP3
2023-2024**

PAP3 08.01.2024 - 15.03.2024

Hyfforddiant Mentoriaid

Mae'n ofynnol i bob **Uwch Fentor** ac **Arweinydd Rhwydwaith** ymgysylltu â'r sesiwn hyfforddi ar gyfer Uwch Fentoriaid cyn i'r PAP gychwyn. Gall hyn fod mewn person neu drwy ymgysylltu â'r recordiad a/neu'r sesiwn gyda'r hwyr.

Yna, disgwylir i **Uwch Fentoriaid** gyflwyno'r hyfforddiant hwn i'r **Mentoriaid Dosbarth** yn eu lleoliadau perthnasol. Rhaid i'r **Mentoriaid Dosbarth** gadarnhau eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant hwn cyn i'r PAP gychwyn.

Mae hefyd yn **hanfodol** fod pob mentor yn ymgysylltu â chynnwys y canllaw hwn.

Arweiniad i Ddarpar Athrawon a'u Mentoriaid


Cyfrifoldebau Proffesiynol

Pan fydd darpar athrawon ar leoliad ysgol, maent yn cynrychioli'r Brifysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb proffesiynol tuag at eu hunain, yr ysgol a'r Brifysgol i reoli eu dysgu eu hunain yn ogystal â chynnal perthnasoedd proffesiynol gydag oedolion a disgyblion.

Lles darpar athrawon

Nododd Fuller a Brown ym 1975 fod myfyrwyr sy'n dysgu sut i addysgu yn 'teimlo wedi'u hysgogi, yn ofnus, yn ddiadmodd, mewn perygl, yn ddrylyd, yn ddigalon, yn llawn tosturi, yn falch ac ar goll – nid o reidrwydd yn y drefn honno' (1975 t. 47). Er bod y gwerthusiad hwn bron yn hanner can mlwydd oed erbyn hyn, mae'n dal i fod yn wir heddiw. Mae rôl y mentor i wneud synnwyr o'r emosiynau hyn a chefnogi darpar athrawon i ddod yn ymarferwyr effeithiol yn dal i fod yn dasg hanfodol ond cymhleth.

Er mwyn meithrin hyder a hunandibyniaeth, disgwylir i ddarpar athrawon ddefnyddio'r tîm o'u hamgylch mewn ffordd ragweithiol er mwyn datrys problemau a gofalu am eu lles eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod astudio i fod yn athro yn heriol a bod angen gwahanol lefelau o gymorth ar unigolion mewn agweddau gwahanol ar y rhaglen. Rydym yn deall nad yw un model yn addas i bawb, a sefydlwyd y rhwydwaith cymorth canlynol gan roi ystyriaeth i hynny:



Os bydd unrhyw bryderon yn codi ynglŷn â lles darpar athrawon, rhaid rhoi gwybod i'r brifysgol ar unwaith drwy anfon e-bost at partnership@uwtsd.ac.uk a fydd yn rhoi gwybod i'r tiwtor Personol a Phroffesiynol perthnasol. Gallai'r enghreifftiau canlynol ddangos problemau posibl yn ymwneud â lles:

- ❖ Hwyliau isel neu dristwch parhaus;
- ❖ Diffyg diddordeb neu ddiffyg chwant bwyd;
- ❖ Lludded neu ddiffyg egni;
- ❖ Problemau canolbwytio;
- ❖ Diffyg hunanhyder neu sylwadau hunanfychanol;
- ❖ Aflonyddwch neu symudiadau'n arafu.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylid gweithredu os sylwir ar unrhyw newid mewn ymddygiad sy'n peri pryder. Os yw'r pryderon yn fwy sylweddol, dylech hefyd gysylltu â **Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr PCYDDS** lle gellir cael cyngor ar unwaith. Dyma'r manylion cyswllt:

- ❖ 01267 676767
- ❖ studentservices@uwtsd.ac.uk



Caiff holl fyfyrwyr PCYDDS eu cyflwyno i 'Togetherall', **adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein sydd ar gael 24/7** ac sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y sector addysg uwch (AU). Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael cymorth yn ôl yr angen ac mae'n eu grymuso i wella eu lles eu hunain trwy gymryd camau gweithredol i wella iechyd meddwl.

Mae Togetherall yn cynnig:

- Cymorth ar-lein 24/7, sy'n golygu nad yw'r cymorth yn ddibynnol ar fynediad i'r campws;
- Cyrsiau strwythuredig y gall myfyrwyr eu dilyn eu hunain sy'n hybu lles meddyliol;
- Cymorth a rhwydweithiau cymheiriaid sy'n cael eu monitro gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Sut i gyfeirio myfyrwyr:
 - ❖ Gall myfyrwyr gofrestru gan ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost PCYDDS;
 - ❖ Dim ond mynd i www.togetherall.com a chofrestru sydd ei angen;
 - ❖ Ar ôl cofrestru, maen nhw'n creu enw defnyddiwr dienw a gallant ddefnyddio'r adnoddau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ar gael ar-lein drwy wefan y sefydliad.

Gall pob myfyriwr ddefnyddio **Ap Feeling Good AM DDIM**. Gallwch lawrlwytho'r ap i'ch ffôn a datglo'r holl gynnwys gan ddefnyddio codau penodol ein prifysgol. [Ap Feeling Good](#)

Profiad Addysgu Proffesiynol

Cyfnod paratoi	Addysgu	Gwybodaeth ychwanegol
08.01.24 - 12.01.24	15.01.24 - 15.03.24	Pontio CDY: Cwrdd - 10.01.24 Rhannu - 24.01.24 Hanner Tymor 12.02.24 - 16.02.24

Cyfnod paratoi:

Yn ystod y cyfnod hwn, **rhaid** i ddarpar athrawon wneud y canlynol:

- Cwblhau hyfforddiant diogelu gan Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) yr ysgol a darllen y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu cysylltiedig;
- Ymgysylltu â pholisïau pwysig yr ysgol, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad, marcio, lechyd a Diogelwch, Diogelu a Covid-19;
- Cwrdd ag aelodau allweddol o staff yr ysgol, gan gynnwys: CADY, Mentor y Gymraeg, ADD a'r Uwch Fentor;
- Gan ddefnyddio templed cynllunio'r brifysgol, cydweithio â'r Mentor Dosbarth i gynllunio'r wers gyntaf i'w chyflwyno;
- Cadarnhau gofynion yr ysgol o ran ymddygiad proffesiynol (amseroedd cyrraedd a gadael, cod gwisg, hysbysu'r ysgol am absenoldeb a gofyn am ganiatâd i fod yn absennol);
- Cael gwybodaeth ynghylch sefydliad yr ysgol, ei hethos, staff, a'r trefniadau ar gyfer y diwrnod ysgol;
- Cael caniatâd i dynnu lluniau/ffilmio plant: Rhaid gofyn caniatâd y Pennaeth neu'r Uwch Fentor cyn tynnu lluniau neu ffilmio plant. Dylai'r Pennaeth neu'r Uwch Fentor lofnodi ffurflen ganiatâd y Brifysgol a dylid ei lanlwytho i Adran 2 Ffeil Addysgu Electronig y PAP ar 'OneDrive';
- Ennill dealltwriaeth o'r disgyblion yn y lleoliad;
- Dylent gwblhau'r amserlen wythnosol electronig ar gyfer yr wythnos gyntaf o addysgu gan ddilyn fformat y Brifysgol a'i lanlwytho i Adran 1 y Ffeil Addysgu Electronig y PAP ar 'OneDrive';
- Ymgysylltu a rhyngweithio â phlant a staff, a dod yn gyfarwydd â rheolau ac arferion yr ysgol trwy ymgymryd â rôl ehangach yr athro lle bo hynny'n bosibl, e.e. dyletswydd amser chwarae.

Ffeil Addysgu Electronig y PAP

Dylai darpar athrawon lanlwytho'r ddolen mynediad at y ffeil electronig ar 'OneDrive' i'w ffolder SharePoint. Bydd hyn yn caniatáu i'r Mentor Dosbarth, yr Uwch Fentor, Arweinydd y Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) gyrchu'r ffolder pan fo'n gyfleus iddynt. Dylai'r Mentor Dosbarth fonitro'r ffeil yn wythnosol. Bydd yr Uwch Fentor yn goruchwyllo'r monitro hwn yn rhan o'u rolau a chyfrifoldebau.

Mae'r adrannau a ganlyn yn ofynnol yn y ffeil addysgu:

ADRAN 1: Gwybodaeth gyffredinol

- Safonau SAC
- Amserlenni Wythnosol: Amlinellir cyfrifoldebau addysgu'r darpar athro; dylai fod hyn wedi'i drafod gyda'r Mentor Dosbarth, a'i gytuno, erbyn y dydd Gwener cyn yr wythnos ganlynol, fan bellaf. Dylid dilyn fformat y Brifysgol.

ADRAN 2: Cyd-destun yr ysgol

- Manylion y ffordd y caiff disgyblion eu grwpio/setio (*fel y bo'n briodol*)
- Polisiâu'r ysgol sy'n gysylltiedig â strategaeth dysgu ac addysgu, disgyblaeth, bwlio, diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt yr aelod o staff Diogelu dynodedig.
- Caniatâd i dynnu lluniau/ffilmio plant.

ADRAN 3: Cynllunio

- **Cynlluniau gwersi, gwerthusiadau a dadansoddiadau adfyfyriol:** Dylid paratoi cynlluniau ar gyfer pob sesiwn addysgu gan ddilyn fformat y Brifysgol; dylid adfyfyrio a gwerthuso'r profiad dysgu cyn gynted â phosibl ar ôl pob gwers/sesiwn yn y Dyddlyfr Dysgu, gan nodi meysydd i'w datblygu.
- **Cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi :** Dylai darpar athrawon mewn lleoliad Dysgu Sylfaen hefyd gwblhau unrhyw flychau perthnasol yn nhempled y brifysgol ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u cynllunio. Nid oes isafswm nac uchafswm o weithgareddau.

Gan fod y ffeil addysgu'n gyhoeddus, ni ddylai darpar athrawon gynnwys unrhyw beth y gellid ei ystyried yn **dor-cyfrinachedd** o ran y wybodaeth a ddarparwyd, nac a allai dramgwyddo pobl eraill.


Cynllunio Gwersi/Sesiynau

Fel y nodwyd uchod, yn ystod y cyfnod paratoi, rhaid i ddarpar athrawon a Mentoriaid Dosbarth gyd-gynllunio'r wers gyntaf i'w chyflwyno. Yn ogystal, dylai darpar athrawon baratoi cynlluniau ar gyfer yr wythnos gyntaf yn ystod y cyfnod paratoi, gan ofyn i'w Mentor Dosbarth wirio eu bod yn briodol. Dylent barhau i gyflwyno'u cynlluniau i'w Mentor Dosbarth **ddau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw** er mwyn gwirio addasrwydd a safon.

Dylent ddangos eu bod yn ymgymryd â rôl yr athro, nid rôl gefnogol.

Mae'n bwysig bod Mentoriaid Dosbarth/Uwch Fentoriaid yn rhoi gwybod i Arweinydd y Rhwydwaith am *unrhyw bryderon cychwynnol* ynghylch ffeil addysgu electronig y PAP a/neu waith paratoi cyffredinol ar gyfer y profiad.

Dengys y saeth isod y llinell gyfathrebu i'w defnyddio gan ddarpar athrawon tra byddant ar y PAP. Disgwyliwn i hon gael ei dilyn bob amser:



Nodwch os gwelwch yn dda y bydd Tiwtoriaid Personol yn cysylltu â darpar athrawon yn wythnosol yn ystod y PAP er mwyn gwirio eu lles a byddant yn parhau i fod ar gael i gefnogi drwy gydol y lleoliad. Os ydych yn ansicr â phwy i gysylltu tra ar PAP, cysylltwch â'ch Tiwtor Personol a fydd yn gallu eich cyfeirio at yr unigolyn priodol.

Llwyth Addysgu:

Gweithredir trefn o roi cyflwyniad graddoledig i addysgu:

Dylid rhoi rhai cyfrifoldebau **dosbarth cyfan** i ddarpar athrawon o'r cychwyn cyntaf e.e. cymryd cyfrifoldeb am reoli arferion dosbarth cyfan – croesawu a rhyddhau disgyblion o'r dosbarth, trefnu & chlirio adnoddau, cymryd y gofrestr.

Dylai darpar athrawon gael profiad o rôl ehangach yr athro lle bynnag y bo modd, e.e. dyletswydd amser chwarae, mynychu gwasanaethau, cefnogi ymweliadau neu glybiau ar ôl ysgol.

Mae'n hanfodol bod Mentoriaid Dosbarth yn mynd ati yn weithredol i annog darpar athrawon i feithrin arloesedd wrth weithredu o fewn y ffiniau a osodir gan gynlluniau cwricwlwm. Y gobaith yw y bydd hyn nid yn unig yn meithrin twf mewn dulliau addysgu dyfeisgar ond hefyd yn grymuso darpar athrawon gyda'r sgiliau angenrheidiol i gynnal addysgu hunan dibynnol a gwreiddiol.

BA3	75%: Addysgu annibynnol parhaus erbyn wythnos 4 (05.02.24)
-----	--

Er mwyn datblygu annibyniaeth, hyrwyddir dulliau addysgegol o hyfforddi a chyd-addysgu e.e.

- Un yn addysgu, un yn arsylwi;
- Addysgu fel tîm;
- Addysgu cyfochrog.

Anogir y darpar athrawon hynny sy'n gwneud cynnydd da i fynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol. Disgwylir y bydd darpar athrawon bob amser yn cael eu goruchwyllo yn yr ystafell ddosbarth gan athro cymwysedig.

Gweithgareddau ar gyfer cyfnodau pan na fyddant yn addysgu:

Gan adeiladu ar y broses datblygu ar y cyd, mae'r PDPA wedi llunio rhaglen o ddatblygiad wedi'i sgaffaldio ar gyfer y cyfnodau pan na fydd y darpar athrawon yn addysgu, sy'n anelu at eu cyfarwyddo â dull graddoledig o addysgu.

Gweithgareddau hanfodol:

- **UN** sesiwn CPA yr wythnos (fel rhan o'r amser digyswllt): Mater i'r ysgol, yn ôl ei disgresiwn ei hun, fydd y ddarpariaeth hon, er enghraifft gall gyd-daro ag amser CPA y Mentor Dosbarth. Bydd disgwyl i ddarpar athrawon aros ar safle'r ysgol yn ystod yr amser hwn (hyd yn oed os yw'r ysgol yn gweithredu system arall ar gyfer ei haelodau staff ei hun). Er nad oes sicrwydd y bydd y CPA yn digwydd ar y cyd gyda'u Mentor Dosbarth, mae'n bwysig bod y Mentor Dosbarth yn gallu darparu peth amser yn ystod ei wythnos i drafod unrhyw gwestiynau/pryderon/heriau a allai fod gan y darpar athro a rhoi arweiniad a chefnogaeth ar gyfer cynllunio gwersi/gweithgareddau.
- **Adfyfrio Wythnosol** – rhaid neilltuo amser bob wythnos i drafod cynnydd a negodi targedau proffesiynol â'r Mentor Dosbarth.
- Sgwrs les wythnosol anffurfiol â'r Uwch Fentor.

Gweithgareddau a argymhellir:

- Arsylwi'r addysgu mewn gwahanol leoliadau, grwpiau oedran a Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Cyfleoedd i gysgodi athrawon sydd â chyfrifoldebau penodol, h.y. CADY, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, arweinwyr bugeiliol a phwnc.
- Cyfleoedd i ymwneud â rhieni, llywodraethwyr a chydweithwyr o asiantaethau eraill.
- Mynediad i gynlluniau datblygu'r ysgol a pholisïau sy'n briodol i ddarpar athrawon (h.y. diogelu ac amddiffyn plant, dysgu ac addysgu, marcio ac adborth ac ymddygiad).
- Cyfleoedd i gyflawni gwaith ymchwil, darllen ehangach, cynllunio a pharatoi e.e. gweithgareddau 'Pontio'.

Yn ogystal, fe fydd cyfleoedd hyfforddi pan na fydd darpar athrawon yn addysgu – gweler y rhaglen seminarau isod.

Rhaglen Seminarau Proffesiynol:

Disgwylir i ysgolion gynnig amrywiaeth o seminarau i gefnogi datblygiad proffesiynol y darpar athrawon. Gellir trefnu seminarau i gwrdd ag anghenion darpar athrawon, a rhestrir rhai awgrymiadau isod. **Sylwch y dylai cyd-destunau'r seminarau a'u cynnwys fod yn wahanol i'r agweddau sy'n cael sylw yn y gweithgareddau 'Pontio'.**

1. Cynllunio

- Sut mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm?
- Sut mae athrawon yn cynllunio dilyniant o wersi?
- Cynllunio ar gyfer oedolion ychwanegol

2. Rheoli Ymddygiad

- Polisiâu a strategaethau (e.e. dull cyfiawnder adferol)

3. Asesu

- Cyflwyniad i weithdrefnau tracio a monitro ar lefel dosbarth
- Defnyddio Asesu ar gyfer Dysgu yn yr ysgol gyfan
- Marcio ac adborth i ddysgwyr

4. Datblygu'r Gymraeg

- Sut mae'r ysgol yn cynllunio i ddatblygu'r Gymraeg?

5. Dulliau o gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr

Y dogfennau sy'n gysylltiedig â SAC

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/Monitro
Dyddlyfr Dysgu Rhaid i'r darpar athro sicrhau fod ei ddyddlyfr dysgu ei hun yn barod ar gyfer dechrau'r PAP	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth, yr Uwch Fentor ac Arweinydd y Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol. Gweler y ddogfen ganllaw Dyddlyfr Dysgu sydd ar gael ar SharePoint am ragor o wybodaeth. SYLWCH: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	Yn ddyddiol. Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth yn ddyddiol. Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol.
Adfyfrio Wythnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth mewn proses gydweithredol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Dyma gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a chynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed adfyfrio wythnosol yn y PDP, a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt.	Yn wythnosol. Y mentor i ychwanegu sylwadau a'i lofnodi.
Arsylwi ar y Cyd	Cynhelir yr arsylwadau ar y cyd gan y Mentor Dosbarth ac un o blith: Uwch Fentor, Arweinydd y Rhwydwaith neu Diwtor Prifysgol. Anogir Uwch Fentoriaid i gymryd rhan mewn arsylwadau ar y cyd mewn ysgolion eraill yn y rhwydwaith.	05.02.24 – 09.02.24
Adroddiad Canol Lleoliad	Cwblheir yr adroddiad canol lleoliad gan y Mentor Dosbarth neu Uwch Fentor a'i lanlwytho i SharePoint y PDPA.	Dyddiad cyflwyno'r adroddiad 09.02.24
Sgwrs Broffesiynol	Sgwrs broffesiynol rhwng y Mentor Dosbarth/Uwch Fentor gyda mewnbwn gan y darpar athro.	26.0.24 - 01.03.24

Adroddiad Diwedd Lleoliad	Adroddiad Diwedd Lleoliad i'w gwblhau gan y Mentor Dosbarth/Uwch Fentor, a'i lanlwytho i ffolder y darpar athro ar SharePoint y PDPA erbyn y terfyn amser a bennwyd. Sylwch y dylid ysgrifennu hwn yn yr amser gorffennol gyda chofnod cywir o'r diwrnodau a fynychwyd. Gellir dod o hyd i enghreifftiau yn Llawlyfr y Mentor.	Dyddiad cyflwyno'r adroddiad 14.03.24 Lleoliad yn dod i ben – 15.03.24
--------------------------------------	--	--

Cynlluniau wrth Gefn

O bryd i'w gilydd bydd darpar athro'n nodi bod angen cymorth ychwanegol, strwythuredig a mwy dwys arno – neu bydd un neu fwy o'r 'tîm o gwmpas y darpar athro' yn nodi hynny. Ar y pwynt hwn, bydd y PDPA yn rhoi'r Broses a'r Gweithdrefnau Wrth Gefn ar waith. Mae nifer o resymau pam y gallai darpar athrawon fod yn cyrraedd pwynt lle bo angen gweithredu mesurau wrth gefn a bod angen cymorth arnynt/cymryd camau, ac mae'n bwysig nodi **nad yw hyn yn cael ei ystyried yn arwydd o fethiant**. Mae gweithredu'r broses wrth gefn yn caniatáu rhoi ymyriadau ar waith mor gynnar â phosibl ac yn sicrhau bod y darpar athro'n cael y cyfle gorau i lwyddo, drwy gynlluniau gweithredu amserol a gosod targedau penodol. Gweler tudalen 95 y Llawlyfr Mentoriaid 2023/2024.

Cynnydd disgwyliedig yn erbyn Safonau SAC y rhaglen BA		
	Cyrhaeddiad Disgwyliedig Ar y Trywydd iawn / Tu Hwnt i Ddisgwyliaidau	Rhesymau dros ddechrau'r Broses Wrth Gefn (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
Canol lleoliad BA3	Pob safon Addysgeg, Cydweithio a Dysgu Proffesiynol i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad ydynt, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y Cynllun Wrth Gefn a nodi'r targedau priodol.
Diwedd lleoliad BA3	Rhaid i bob un o'r safonau SAC fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf.	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: Os oes un safon ddim 'Ar y Trywydd iawn' bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gydag Arweinydd y Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (Cynllun Cefnogaeth Wrth Gefn – Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol.

		Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academiaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Ar y Trywydd Iawn' bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academiaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gydag Arweinydd y Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn yn unol â'r arfer.
--	--	--

Llinynnau Canolog

Addysgeg (Mireinio Addysgu):

Add1	Addysgeg	Rheoli'r amgylchedd dysgu	Mae'r athro'n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w ymsefydlu a'i reoli'n effeithiol ac yn barhaus.
Add2	Addysgeg	Gwahaniaethu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.
Add3	Addysgeg	Asesu	Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu

Addysgeg (Hyrwyddo Dysgu):

Add6	Addysgeg	Pedwar diben i ddysgwyr	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr.
Add8	Addysgeg	Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny.

Cydweithredu:

C2	Cydweithredu	Ceisio cyngor a chymorth	Mae'r athro'n mynd ati i geisio ac ymwneud â chefnogaeth o ystod ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi a dysgu fel tîm, ac arddangos mwy a mwy o annibyniaeth.
----	--------------	--------------------------	---


Dysgu Proffesiynol:

DP1	Dysgu Proffesiynol	Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.
-----	--------------------	--	---

DP4	Dysgu Proffesiynol	Sgiliau Cymraeg	Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.
-----	--------------------	-----------------	--

Arweinyddiaeth:

Ar1	Arweinyddiaeth	Cymryd cyfrifoldeb personol	Mae'r athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/ gofawyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.
Ar2	Arweinyddiaeth	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.



Gellir dod o hyd i'r ddogfen gyfan parthed y Broses a'r Gweithdrefnau Wrth Gefn ar SharePoint.

Presenoldeb:

Mae'n **orfodol** bod darpar athrawon yn cwblhau 120 niwrnod o weithgarwch yn gysylltiedig ag ysgol yn ystod y rhaglen tair blynedd.

Mae hyn yn cynnwys:

- ❖ Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP);
- ❖ Pontio;
- ❖ Diwrnodau ymchwil;
- ❖ Profiadau dewisol;
- ❖ Cyfnewid Cyfnod.

Yn ystod y rhaglen BA, mae diwrnodau PAP **ychwanegol** wedi'u cynnwys yng nghynllun y rhaglen. Er mwyn osgoi oedi cyn graddio ar ddiwedd y rhaglen BA, mae angen i unrhyw ddarpar athro sydd wedi colli mwy na 5 diwrnod;

BA1 (PAP1 - Dysgu Sylfaen) – gwneud iawn am ddiwrnodau a gollwyd yn eich ysgol PAP, ac eithrio ar ddiwrnodau pan gynhelir darlithoedd

BA2 (PAP2 – Cyfnod Allweddol 2) - gwneud iawn am ddiwrnodau a gollwyd yn eich ysgol PAP, ac eithrio ar ddiwrnodau pan gynhelir darlithoedd

BA3 (PAP3) – rhaid iddo fod wedi cwblhau 120 diwrnod o weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Os nad yw hyn yn wir, mae angen amser ychwanegol mewn ysgol ar ôl PAP3.

Cysylltwch â'ch Mentor Dosbarth, Uwch Fentor, Arweinydd y Rhwydwaith a'ch Tiwtor Proffesiynol os oes angen gwneud iawn am amser ychwanegol yn yr ysgol ar ddiwedd eich bloc PAP perthnasol.

Cofnod Presenoldeb Dyddiol

Cyfrifoldeb y darpar athrawon ydy cadw cofnodion presenoldeb manwl cywir yn eu Portffolio Dysgu Proffesiynol o dan y 'tab presenoldeb'. Nodwch os gwelwch yn dda y dylai'r Uwch Fentor sicrhau fod y cofnodion yn fanwl gywir ar achlysur bob pwynt adrodd.

Y weithdrefn mewn achos o absenoldeb

Os na allwch fynd i'r ysgol tra byddwch ar y PAP, dilynwch y broses isod.

Yn achos absenoldebau annisgwyl:

1. Dilynwch weithdrefnau hysbysu'r ysgol am absenoldeb a sicrhau bod eich Mentor Dosbarth, Uwch Fentor ac Arweinydd y Rhwydwaith yn ymwybodol o'ch absenoldeb.
2. Sicrhewch fod eich Cofnod Absenoldeb Wythnosol yn dangos y diwrnodau / sesiynau pryd roeddech yn absennol.

Ceisiadau am ganiatâd i fod yn absennol

Yn achos caniatâd am absenoldeb a gynlluniwyd, dilynwch y prosesau a ddangosir isod:

1. E-bostiwch eich Uwch Fentor i roi gwybod iddynt am y dyddiadau y byddwch i ffwrdd a gofynnwch am ganiatâd i fod yn absennol o'r ysgol. Os gwrthodir hyn, mae presenoldeb yn ofynnol mewn ysgol PAP ar ddyddiadau'r cais 'caniatâd i fod yn absennol'.
2. Os cymeradwyir hyn, anfonwch y gadwyn e-bost ymlaen at y Rheolwr Rhaglen perthnasol i gael cymeradwyaeth y Brifysgol. Os gwrthodir hyn, mae presenoldeb yn ofynnol mewn ysgol PAP ar ddyddiadau'r cais 'caniatâd i fod yn absennol'.
3. Os cymeradwyir hyn gan y Rheolwr Rhaglen, gwnewch yn siŵr fod Arweinydd y Rhwydwaith a'ch Tiwtoriaid Personol a Phroffesiynol yn ymwybodol os gwelwch yn dda. Nodwch eich absenoldeb ar eich Cofnod Presenoldeb ar y PDP.

Gwybodaeth ddefnyddiol:

Rôl		Enw / Cyfeiriad e-bost	
Uwch Swyddog Gweinyddol y Bartneriaeth		Christine Rees 01267 676914 partnership@uwtsd.ac.uk	
Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithredu a Safonau Proffesiynol (SAC)		Laurence Thomas laurence.thomas@uwtsd.ac.uk	
Fitzalan High School			
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Bethan Spencer Bsp@fitzalan.cardiff.sch.uk	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Hilary Chivers hilary.chivers@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Ishmael Lewis Ishmael.lewis@uwtsd.ac.uk	
Olchfa School			
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Rebecca Salmon rms2@olchfa.org.uk	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Jingjing Ruan j.ruan@uwtsd.ac.uk	
Ysgol Llanhari			
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Lloyd Owens Lowens@llanhari.com	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Nic Evans n.j.evans@uwtsd.ac.uk	
Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las			
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Llinos Jones JonesL106@Hwbcymru.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Meryl Bowen m.bowen@uwtsd.ac.uk	
Ysgol Bro Preseli			
Ar Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Catrin Thomas Cthomas@ysgolbropreseli.cymru	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Ian Jones ian.jones@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Menna Davies Menna.davies@uwtsd.ac.uk	

Cadle Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Jamie Davies Daviesj302@hwbcymru.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Jessica Roberts Jessica.roberts@uwtsd.ac.uk
Cowbridge Comprehensive School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Ruth Williams rwilliams@cowbridgecs.co.uk	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Jo Bamsey JoBamsey@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Julia Holloway j.holloway@uwtsd.ac.uk
Bishop Gore School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Ruth Williams ruthwilliams@bishopgore.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Kathryn Edwards kathryn.edwards@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Stephen Hadley Stephen.hadley@uwtsd.ac.uk
Parkland Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Catrin Parton partonc@hwbcymru.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Lilian Martin l.martin@uwtsd.ac.uk
Pembroke Dock Community School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Katie Crockford-Morris Morrisk111@hwbmail.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Diane Thomas d.b.thomas@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Tom Cox t.cox@uwtsd.ac.uk
Ysgol Cwm Brombil		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Liz Curson curson@hwbmail.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Helen Williams h.williams@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Alison Evans Alison.evans2@uwtsd.ac.uk
Bishop of Llandaff CiW Secondary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Stephanie Leighfield LeighfieldS@bishopofllandaff.org	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Jo Bamsey JoBamsey@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Jayne Morgan Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk

St Thomas Community Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Rebecca Taylor TaylorR175@Hwbcymru.net Andrew Burns burnsa3@hwbmail.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Helen Williams h.williams@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Laura Emanuel Laura.emmanuel@uwtsd.ac.uk
Maes yr Haul Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Joanna Kenifick joanna.kenifick@maesyraulps.bridgend.cymru	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Kathryn Edwards kathryn.edwards@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Rachel Bendall Rachel.bendall@uwtsd.ac.uk
Cadoxton Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Louise Williams WilliamsL@hwbmail.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Laurence Thomas laurence.thomas@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Laurence Thomas laurence.thomas@uwtsd.ac.uk
Pontarddulais Primary School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Gareth Davies daviesg429@hwbcymru.net Hayley Thomas phillipsh77@hwbcymru.net Emma John johne170@hwbcymru.net	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Lisa Regan l.regan@uwtsd.ac.uk
Treorchy Comprehensive School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Steph Evans STSParr1@treorchycomp.org.uk	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Hilary Chivers hilary.chivers@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Daisy Wilson d.wilson@uwtsd.ac.uk
QE High School		
Arweinydd y Rhwydwaith PDPA: Angharad Lewis angharad.lewis@gehs.carms.sch.uk	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol): Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk	Tiwtor Prifysgol (Cwricwlwm): Fiona Jones f.jones@uwtsd.ac.uk